| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **DYDDIAD** | 22 Mehefin 2012 |
| **TEITL** | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| **PWRPAS** | Atgoffa'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd o gylch gorchwyl y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;<br>Ail-edrych ar y trefniant o gynnal cyfarfodydd o'r Panel o ran aelodaeth yn unig, a gwneud newidiadau os oes angen. |
| **ARGYMHELLIAD** | • Gofynnir i'r Aelodau gyflwyno sylwadau am briodoldeb i barhau neu beidio gyda'r trefniant presenol sef bod holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>• Os na phenderfynir cadw'r trefniant aeoldaeth presennol y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gofynnir i'r Aelodau gytuno ar ei aelodaeth |
| **AWDUR** | Nia Davies, Rheolwr Cynllunio (Polisi), Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd |

## 1 Cefndir

1.1 Penderfynwyd ym mis Mawrth 2011 i sefydlu Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a bod holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn aelodau o'r Panel hwnnw. Yn ystod y drafodaeth a arweiniodd at y penderfyniad fe gytunwyd y dylid ail-edrych ar y trefniant o ran aelodaeth yn unig, ar adeg briodol, ac ystyried newidiadau o ran aeoldaeth bryd hynny. Credir ei bod hi'n amserol i wneud hynny rŵan.

1.2 Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i ddod i gasgliad am ddyfodol y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae'r adroddiad yma yn:

- atgoffa'r aelodau o gylch gorchwyl y Panel,
- rhoi gwybodaeth am y materion a gafodd eu trafod yn ystod y cyfarfodydd
- rhoi dyddiadur cyfarfodydd y Panel yn ystod 2012 – 2013
- rhoi amlinelliad o'r materion a fydd angen barn arnynt yn ystod 2012 – 2013.

## 2 Cylch gorchwyl y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

2.1 Mae Atodiad 1 yn nodi beth yw dyletswyddau presennol y Panel.

2.2 Fe ddaru'r Panel gwrdd yn ystod 2011 – 2012 i:

- Ddatblygu papur trafod i'w ddefnyddio i ymgysylltu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid penodol a chyffredinol ynglŷn â chyfeiriad posib yr hoff strategaeth;
- Roi mewnbwn i fethodoleg i asesu safleoedd fydd ar y Gofrestr Tir Posib

- Ystyried sail dystiolaeth ar gyfer ymgymryd ag Asesiad Cynaliadwyedd o'r CDLl ar y Cyd a rhoi mewnbwn i'r fframwaith asesu
- Ystyried casgliadau dechreuol Astudiaeth Tir Cyflogaeth

## 3 Dyddiadur y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2012 - 2013

3.1 Mae Atodiad 2 yn adnabod dyddiadau a lleoliad ar gyfer cyfarfodydd y Panel rhwng Gorffennaf 2012 a Mawrth 2013.

## 4 Rhaglen waith arfaethedig y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn 2012 - 2013

4.1 Dyma restr o fathau o feysydd gwaith a ragwelir y bydd angen mewnbwn y Panel yn ystod 2012 – 13

- Asesiad o oblygiadau ystadegau am boblogaeth Gwynedd a Môn ddaw allan o ganlyniadau dechreuol Cyfrifiad 2011
- Asesiad o oblygiadau astudiaeth i adnabod cyfleon i gyfarch yr angen am lety i weithwyr adeiladu Wylfa B
- Asesiad Strategol o Risg Llifogydd Lefel 1
- Adolygiad o Ardaloedd Cymeriad y Tirlun ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- Tystiolaeth i gefnogi parhad a diwygiad o bolisïau am dai fforddiadwy ac anghenion am fathau eraill o lety
- Datblygiad y strategaeth aneddleoedd - rôl a chapasiti aneddleoedd unigol
- Asesiad o gasgliadau'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth
- Asesiad o gasgliadau'r Astudiaeth Manwerthu
- Asesiad o oblygiadau strategaethau twristiaeth

## 5 Argymhelliad

5.1 Gofynnir i'r Aelodau gyflwyno sylwadau am briodoldeb i barhau neu beidio gyda'r trefniant presenol sef bod holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

5.2 Os na phenderfynir cadw'r trefniant aeoldaeth presennol y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gofynnir i'r Aelodau gytuno ar ei aelodaeth

## ATODIAD 1

### Panel y CDLl  ar y Cyd – Cylch Gorchwyl

### Prif Bwrpas

Bydd Panel y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd yn ystyried a rhoi barn ar ddogfennau canolraddol, gan gynnwys dogfennau sy'n rhoi casgliadau cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn hwyluso'r gwaith o gadw at yr amserlen yn y Cytundeb Cyflawni.

### Amcanion

Bydd Panel y CDLl ar y Cyd yn:

- Ystyried dogfennau drafft adeg camau canolraddol yn y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd er mwyn adnabod dewisiadau neu faterion eraill i'w cynnwys yn y dogfennau drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi fel sail i ennyn trafodaeth a chyfranogiad cyhoeddus amdanynt, e.e. gweledigaeth y CDLl ar y Cyd, strategaethau amgen ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd, ystyriaeth o'r adroddiad scopio drafft i'r Asesiad Cynaladwyedd, yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedol sydd yn y Cytundeb Cyflawni.
- Derbyn, a chymryd cyfrif o'r sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/ fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

### Mandad

- Bod yn grŵp mewnol o Aelodau Etholedig.
- Bod yn weithgor gweithredol, gyda swyddogaeth o hwyluso'r gwaith o greu consensws ar faterion allweddol.

### Cyfansoddiad

Bydd y Panel yn cynnwys pob un o Aelodau Etholedig o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (7 o Fôn a 7 o Wynedd)

### Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Bydd Aelodau Etholedig yn cael eu penodi yn ystod cyfarfod cyntaf Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

**Cworwm**

Cydnabyddir na fydd pob Aelod sydd wedi'u hadnabod ar gael i fynychu pob cyfarfod a gynhelir yn ystod y broses. Fodd bynnag, er mwyn i gyfarfod o Banel y CDLl ar y Cyd gael ei gynnal, fe ddylid cael cworwm o bedwar Aelod Etholedig.

**Amledd**

Bydd Panel y CDLl ar y Cyd yn cyfarfod yn ôl yr angen er mwyn rhoi cyngor yn ystod y camau allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun. Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y grŵp, bydd dyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu sefydlu gan roi cymaint o rybudd â phosib.

**Rhaglenni**

Rheolwr Polisi (Cynllunio) o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fydd yn gyfrifol am gytuno ar y rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd).

Bydd Aelodau'r Panel yn derbyn yr holl bapurau pum niwrnod cyn cyfarfodydd.

**Mecanwaith Adrodd**

Bydd cofnodion ac argymhellion y Panel CDLl yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. .

## ATODIAD 2

### Cyfarfodydd y Panel / Pwyllgorau CDLl ar y Cyd

### Gorffennaf 2012 – Mawrth 2013

| Dyddiad | Ystafell | Lleoliad | Cyfarfod |
|---|---|---|---|
| 20 Gorffennaf 2012 | Ystafell Pwyllgor (1) | Llangefni | Panel |
| 7 Medi 2012 | Glyder Fawr | Caernarfon | Panel & Pwyllgor |
| 12 Hydref 2012 | Ystafell Pwyllgor (1) | Llangefni | Panel |
| 23 Tachwedd 2012 | Siambr | Llangefni | Panel & Pwyllgor |
| 21 Rhagfyr 2012 | Glyder Fawr | Caernarfon | Panel |
| | | | |
| 25 Ionawr 2013 | Glyder Fawr | Caernarfon | Panel & Pwyllgor |
| 15 Chwefror 2013 | Ystafell Pwyllgor (1) | Llangefni | Panel |
| 8 Mawrth 2013 | Ystafell Pwyllgor (1) | Llangefni | Panel & Pwyllgor |